

# GALARGAN

AR OL Y DIWEDDAR

WILLIAM LEWIS WILLIAMS (Gwilym Craig y Tyle),

Yr hwn a fu yn Aelod a Diacon ffyddlon yn Eglwys Soar, Rhymni, am flynyddau lawer. Testyn cystadleuol Eisteddfod Soar, 1892. Beirniad, <sup>Mr.</sup> T. Richards (Epsilon). Cadeirydd, S. G. Lewis, Ysw., Penarth.

**Y FEIRNIADAETH.**—(HIRAETH-FAB) a ddefnyddia y termau "Daear ddu," "Angeu du," "Coch" yw'r ddaear yn y parthau gorllewinol o Gymru. Yn y broeydd a'r gwastadeddau—"meusydd gwynic i'r cynhauf." Ai Collier yw y bardd, yn barnu y ddaear yn ddu oddiwrth y glo? Dywed Dr. Watts "O! what *howling* land is this that yield us no supply." Dogs do *howl*, not the land. Can yn fwy nefolaidd pan y dywed "We are marching through Immanuel's land to finer world above." Tegwch âg "Hiraeth-Fab" yw dywedyd fod spotiau duon mewn un ystyr ar y ddaear, ac i'r enwog GWILYM aml deimlo dwysder eu duwech. Cynwysa cyfansoddiadau "Hiraeth-Fab," "Gwilym," ac "Un o Blant yr Ysgol," syniadau swynol, glwysion, coethus, a barddonol, gwir deilwng o'r gwron GWILYM CRAIG Y TYLE. Darlunia un GWILYM yn ei wendid corphorol. Llall a ddarlunia ddwysder ei deimladau a berth ei egwyddorion. Darlunia un ef yn gweddio a wyllo. Llall a'i darlunia yn barddoni a chanu. Darlunia un yr addfwyn weithiwr yn ei waith. Llall y bardd yu ymorphwys odliwrth ei waith. Darlunia un ef fel pechadur. Llall a'i gwel ef wedi ei olchi yn ngwaed yr Oen. Darlunia un y golled o'i golli. Llall yr enill o'i gael. Ceir ganddynt ddarlun byw o'r enwog GWILYM.

YN ei fedd mae GWILYM anwyl!  
 Ninau yn ein dagrau sydd;  
 Cenad ddaeth i wlad y ddaear,  
 Fod ei eisieu'n Ngwlad y Dydd;  
 Wyla'r "Ysgol" a'r "Genhadaeth,"  
 "Cyrddau'r Wythnos," hwythau sydd  
 Yn eu galar—iddynt golli  
 Un o ddewrion dadau'r ffydd.  
 Gwell oedd ganddo rhoi na derbyn,  
 Rhoi o hyd tra bu ef byw;  
 Tanau llonaf telyn GWILYM  
 Ydoedd rhoi at achos Duw;  
 Dydd ei angladd, dagrau gloewon  
 Dreiglent, fel rhyw dystion dwys  
 Am y golled fawr i Soar,  
 Rhoi'r fath galon dan y gwys.  
 Gair ei Dduw oedd llyfr ei fywyd,  
 Nid ffug-chwedlau gwag y llawr,  
 Dyfnion bynciau byd tragwyddol,  
 Oddynt bethau'r enaid mawr;  
 Gwell oedd ganddo dŷ Duw'r lluoedd  
 Na'r palasau gwycha'u rhyw,  
 "Fel y brefa'r hŷdd am ddyfroedd,"  
 Brefai yntau am dŷ Dduw.  
 Collwyd *bardd*, a *cherddor* trylwyr,  
 Pan y collwyd ef o'n mysg;  
 Collwyd yr *hanesydd* enwog,  
 A'r seryddwr mawr ei ddysg;  
 Gadael wnaeth fyd y gorthrymder,  
 Croesodd donau'r afon gref,  
 R'hyn fu'n *golled fawr* i'r ddaear,  
*Eliw mawr* fu iddo ef.  
 Nid yw'r fron yn gyfyng heddyw,  
 Nid oes peswch arno ef,  
 Clir yw'r llais, mor glir a'r angel!  
 Yn hardd gôr y drydedd nef;  
 Ar ei fron dysgleiria heddyw  
 Hardd fathodyn aur y nef,  
 Ac mae'r geiriau: "Da, was ffyddlon,"  
 Wedi'u cerfio arno ef.  
 Duw a noddo yr amddifaid,  
 A'r perth'nasau ar bob llaw;  
 Efelychwn ninau'r rhiniau,  
 Nes cyd-gwrdd yr ochr draw;  
 Cwrdd heb ofni mwy ymadael,  
 Cwrdd heb drallod, cwrdd heb boen,  
 Cwrdd i ganu'r anthem nefol,  
 O dragwyddol fawl i'r Oen.

UN O BLANT YR YSGOL.

BETH yw'r cwynfan? beth yw'r galar?  
 Beth yw'r ocheneidio sydd?  
 Beth yw'r wyllo? beth yw'r dagrau?  
 Welai yma ar bob grudd?  
 A oes yma glaf yn gorwedd?  
 A oes yma newydd trist?  
 A oes rhywun wedi madael  
 Oedd yn canlyn Iesu Grist?  
 "Oes," medd holl ganlynwyr Iesu;  
 "Oes," medd plant yr Ysgol wiw;  
 "Oes," medd rhai o'r afradloniaid  
 S'yn yr ardal yma'n byw;  
 "Oes," yw llais cyfarfod gweddi;  
 "Oes," medd y gyfeillach fwyn,  
 "Un arferai er yn ieuanc  
 Yma dd'od i ddweyd ei gwyn."  
 "GWILYM CRAIG Y TYLE" enwog,  
 Heddyw sydd mewn oerllyd fedd,  
 Wedi gorphen ar ei yrfa,  
 Ei enaid sydd mewn tawel hedd;  
 Ni ddaw gofid, poen, nac angeu,  
 Byth o fewn y wlad lle nae.  
 Ond llawenydd a dedwyddwech  
 Gyda'r bendigedig rhai.  
 Ni rhaid achwyn am i angeu  
 Ei gymeryd ef cyn pryd;

Cafodd bron ei gyflawn ddyddiau,  
 Gorchwyl yn ei law o hyd;  
 Wedi'i gladdu yn y bedydd,  
 Wedi'i ganu'n ngwaed yr Oen  
 Wedi llwyr ddileu'i bechodau,  
 Dianc wnaeth o fyd o boen.  
 Os oedd eisieu cyfaill ffyddlon,  
 WILLIAMS anwyl oedd efe;  
 Medrai beunydd gydymdeimlo  
 A'r rhai tlotaf yn mhob lle;  
 Maddeu bai, a chuddio trosedd,  
 Fel gwna'i Dad sydd yn y nef;  
 A gwneyd holl ofidiau'i gyfaill  
 Megis ei ofidiau ef.  
 Ffarwel bellach, rhaid ymadael,  
 Er ei ddoniau yn ei ddydd;  
 Nid yn golled oedd, ond enill,  
 Can's bu farw yn y ffydd;  
 Minau rhoddaf heibio ganu,<sup>1</sup>  
 Gan ei adael ef mewn hedd;  
 Gan obeithio cawn gyfarfod  
 Eto ar ein newydd wedd.

GWILYM.

O! MOR gyfnewidiol ydyw  
 Troion dyrus doeth yr Iôr;  
 I olygon gwanaid dynion  
 Maent fel tônau llaith y môr;  
 Pan ddaw tôn o draw i'n golwg,  
 Fe ddiflana cyn bo hir;  
 Felly ninau, yr hîl ddynol,  
 Nid oes i ni amser elir.  
 Felly WILLIAM LEWIS WILLIAMS,  
 Er mor uchel oedd mewn bri,  
 Sydd yn huno heddyw'n dawel  
 Yn mhriddellau'r ddaear ddu;  
 Hiraeth sydd bron llethu'm calon,  
 Dagrau ar fy ngruddiau sydd,  
 Pan ddaw cofion am hen droion  
 I fy meddwl nos a dydd.  
 Colli'r bardd a'r cerddor celfydd,  
 Colli un oedd fawr mewn dysg;  
 Colli athraw goleuedig,  
 Oedd fel seren yn ein mysg;  
 Colli un oedd pawb yn garu  
 A'i adwaenai yn mhob man;  
 Colli un fu'n gymhorth filwaith,  
 Do, i godi'r tlawd i'r lan.  
 Colli blaenor wnaeth yr eglwys,  
 O! r fath golled gafodd hi;  
 Dyna pa'm mae Soar heddyw  
 Yn ei galar wisgoedd du;  
 Enwi holl rinweddau Gwilym,  
 Yma fydd, mi wn 'n rhy faith;  
 Tywallt dagrau, atal geiriau,  
 Rhaid fel yntau<sup>1</sup> lawer gwaith.  
 Ffarwel roddaf i'th weddillion,  
 Er mor anhawdd, wrth dy fedd;  
 Bydd dy enw i mi'n anwyl,  
 Nes ail gwrdd yn ngwlad yr hedd;  
 A thra heda'r fwyn efengyl  
 I bellerau daear Duw;  
 Bydd hoff enw "Craig y Tyle"<sup>2</sup>  
 Yno megis dechreu byw.  
 Chwithau blant ac hoff berth'nasau  
 Sydd mewn hiraeth ar ei ol,  
 Mynwch olew yn eich llestri,  
 Nid fel y morwynion ffol,  
 Fel bydd i chwi gael mynediad  
 Clir i'r wynfa hardd ei gwedd,  
 Ac os felly, ni rhaid i chwi  
 Ofni angeu du na'r bedd.

HIRAETH FAB.

<sup>1</sup> Yr wyf yn cofio y brawd ugeiniau o weithiau gan deimladau yn methu siarad gair, ond tywallt dagrau yn hylif.  
<sup>2</sup> Yr wyf yn meddwl y parha ei enw tra parhau yr hen don fendigedig "Craig y Tyle."